

ATODLEN

Cyfarwyddyd o dan adran 106(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn cymhwyso'r cod cyfathrebu electronig

Cefndir

1. Mae Clear Mobitel Ltd, rhif cwmni cofrestredig 07067025, wedi gwneud cais i Ofcom am gyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod iddo.
2. Mae'r dyddiad y derbyniodd Ofcom gais wedi'i gwblhau sy'n bodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â chynnwys cais am gyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod a'r modd y dylid gwneud cais o'r fath oedd 21 Mawrth 2026.
3. Yn rhinwedd rheoliad 3 o Reoliadau Cyfathrebu Electronig a Thelegraffiaeth Di-wifr 2011 (SI 2011 Rhif 1210), ac eithrio mewn achosion o ddiarddel, rhaid i Ofcom wneud ei benderfyniad o fewn 6 mis i dderbyn y cais.
4. Cyn rhoi penderfyniad o dan adran 106(3) o'r Ddeddf i gymhwyso'r Cod i Clear Mobitel Ltd, rhaid i Ofcom gyhoeddi hysbysiad o'i gynnig i roi'r cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau am y cynnig hwnnw a wneir i Ofcom o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.
5. Ar 28 Mai 2026, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn unol ag adran 107(6) o'r Ddeddf o'i gynnig i roi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i Clear Mobitel Ltd. Gwahoddodd yr hysbysiad hwnnw sylwadau i Ofcom erbyn 5pm ar 29 Mehefin 2026 fan bellaf.
6. Ni dderbyniodd Ofcom unrhyw sylwadau am y cynnig. Am y rhesymau a nodir yn y datganiad esboniadol sy'n cyd-fynd ag ymgynghoriad Ofcom, mae Ofcom wedi ystyried, yn benodol, bob un o'r materion a nodir yn adran 107(4) o'r Ddeddf. Ar ben hynny, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol yn adran 3 o'r Ddeddf a'r chwe gofyniad yn adran 4 o'r Ddeddf.

Penderfyniad

7. Mae Ofcom drwy hyn yn cyfarwyddo, yn unol ag adran 106 o'r Ddeddf, fel a ganlyn—
 - (a) bydd y Cod yn berthnasol i Clear Mobitel Ltd (Rhif cwmni cofrestredig 07067025) at ddibenion y ddarpariaeth ganddo:
 - i. rhwydwaith cyfathrebu electronig;
 - ii. system o seilwaith y mae'n ei darparu, neu'n bwriadu ei darparu, i'w defnyddio gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau ganddynt;
 - (b) y bydd cymhwyso'r Cod yn cael effaith ledled y Deyrnas Unedig.
8. Bydd y Cyfarwyddyd hwn yn dod i rym ar y diwrnod y caiff ei gyhoeddi.

Dehongliad

9. Yn y Cyfarwyddyd hwn—
 - (a) ystyr "**Deddf**" yw Deddf Cyfathrebiadau 2003;
 - (b) ystyr "**Cod**" yw'r cod cyfathrebu electronig a nodir yn Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;
 - (c) Ystyr "**Ofcom**" yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau.
10. At ddibenion dehongli'r Cyfarwyddyd hwn—
 - (a) rhaid anwybyddu penawdau a theitlau;

- (b) bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys fel pe bai'r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.

Llofnodwyd

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ben Harries', written in a cursive style.

Ben Harries

Cyfarwyddwr Polisi, Seilwaith a Chysylltedd

Person sydd wedi'i awdurdodi'n briodol yn unol â pharagraff 18 o'r Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadu 2002

22 Gorffennaf 2026